



COFNODION CYFARFOD BWRDD Y DIWYDIANT BWYD A DIOD
15 Rhagfyr 2016

Eitem 1: Croeso – Cadeirydd

1. Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan gyflwyno Ysgrifenyddiaeth newydd y Bwrdd a nodi unrhyw ymddiheuriadau (yn atodiad 1).
2. Aeth yr aelodau drwy'r Log Pwyntiau Gweithredu o'r cyfarfod blaenorol gan roi gwybodaeth i'r aelodau am y datblygiadau gyda phob Cam Gweithredu.

Eitem 2: Cofnodion cyfarfod 28 Medi 2016

3. Cafodd y cofnodion eu derbyn fel cofnod cywir. Cafwyd sylwadau ychwanegol i'r cyfarfod diwethaf wedi'r dyddiad cau ar gyfer newidiadau, felly maent wedi eu hychwanegu fel atodiad 2

Eitem 3: Dangoswrdd Cyflawni

4. Dosbarthwyd y Dangoswrdd Cyflawni a rhoddwyd y newyddion diweddaraf i'r aelodau ar y datblygiadau tuag at gyrraedd targedau a chamau nesaf.

Eitem 4: Cyflwyniad Brandio

5. Rhoddodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Marchnata gyflwyniad byr ar y brand newydd. Y ddraig sydd yn y canolog/nod y brand, dylid defnyddio'r prif frand pryd bynnag y bo'n bosibl gyda'r "Bwyd a Diod / Food and Drink" fel yr is-frand. Mae'r ffotograff yn canolbwyntio ar y cynnyrch, y lle, pobl, a manylion. Y syniad o "Dyma Gymru" yw'r brif neges, gan geisio ei addasu ar gyfer "Dyma Fwyd a Diod".
6. Mae angen i'r defnydd o'r brand gan drydydd parti fod yn gliriach. Cafodd ALW a CF eu gwahodd i ymuno â grŵp trafod.
7. Cytunwyd y dylid defnyddio'r is-frand "Bwyd a Diod / Food and Drink" ar gyfer y digwyddiad Blas Cymru / Taste Wales.

Eitem 5: Cyflwyniad ar Diodi Bwyd

8. Rhoddodd KP grynodedb o'r rhaglen Bwyd a Hwyl (sy'n cael ei hadnabod hefyd fel y Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol (SHEP). Mae'r cynllun yn bwysig iawn i bwysleisio y camau positif y mae Cymru yn eu cymeryd i leihau anghydraddoldebau iechyd, cymdeithasol ac addysgol.



Eitem 5: Y diweddaraf gan Ysgrifennydd y Cabinet

9. Bu Ysgrifennydd y Cabinet yn tynnu sylw at y datblygiadau tuag at gyflawni amcanion y Cynllun Gweithredu. Gofynnwyd i'r Bwrdd edrych ar y cyfleoedd o fewn y diwydiant gan bwysleisio bod y Bwrdd yn fwy na Bwrdd cynghorol.
10. Bydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei adolygu, yn enwedig i gyd-fynd â Brexit, gofynnwyd i'r Bwrdd gyfrannu at sut y bydd gwaith y Bwrdd yn alinio â'r Cynllun Gweithredu.
11. Cafodd y Bwrdd eu hannog i fynd i ddigwyddiad Blas Cymru / Taste Wales.
12. Holodd JW ynghylch meini prawf cynaliadwy y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Mae fforwm y categori bwyd wedi ei hen sefydlu ac mae contractau yn cael eu tendro ar raglen barhaus.
13. Tynnodd CF sylw at y rhwystrau i geisiadau ar gyfer Cynllun Organig Glastir. Tynnodd ALW sylw hefyd at yr angen am Farc Safon ar gyfer Cymru. Mae nifer o gynlluniau Sicrwydd Ansawdd sydd angen eu cysylltu'n synhwyrol, ac mae DM yn rhan o weithgor sy'n edrych ar 'Origin Green' sy'n gynllun effeithiol iawn yn Iwerddon a bydd yn rhoi adborth ar y datblygiadau yn y cyfarfod nesaf.
14. Tynnodd JF sylw at y diffyg gwaith ymchwil ar gyflogi mewnfudwyr. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet y newyddion diweddaraf i'r aelodau bod tîm Strategaeth yr UE yn edrych ar gyflogaeth mewnfudwyr gan gynnwys data a gwaith ymchwil.
15. Rhoddodd KP y newyddion diweddaraf i'r aelodau ar y fenter "Peas Please" gan ofyn i'r aelodau godi ymwybyddiaeth ohoni.
16. Tynnodd MS sylw at y pryderon ynghylch defnyddio deunydd gwrth-facterol micro, ac i Gymru arwain y maes, a arweinodd at gwestiynau am sut y gall y Bwrdd weithio.

Eitem 6: Llif Gwaith Pobl a Sgiliau

17. Rhoddodd JF grynodedb o gyfeiriad y llif gwaith Pobl a Sgiliau. Tynnodd y llif gwaith sylw at fylchau sgiliau ac maent wedi dechrau datblygu gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar dwf y diwydiant.
18. Rhoddodd DL y newyddion diweddaraf i'r aelodau ar y prosiect KITE, ac mae'r rhaglen wedi ei chadarnhau am 5 mlynedd gyda'r agweddau cyfreithiol a meincnodi yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Y bwriad yw lansio'r rhaglen yn y Flwyddyn Newydd, o bosib ei chyfuno â Blas Cymru / Taste Wales.
19. Rhoddodd JF y newyddion diweddaraf i'r aelodau ar y datblygiadau sy'n cael eu gwneud ar y fframweithiau Prentisiaeth. Holodd BG a oedd modd ychwanegu modiwl Diodydd h.hy. technologydd diodydd.
20. Holodd DM sut y mae'r Prentisiaethau'n cael eu marchnata a phobl yn cael eu hannog i gymeryd rhan.
21. Mae'r Brentisiaeth Laeth i gael ei lansio yn y Gynhadledd Sgiliau.
22. Rhoddwyd crynodeb byr ar Tasty Wales gan ddefnyddio Llysgenhadon yn ymweld ag Ysgolion. Holodd KP a oedd modd targedu cynulleidfa



ieuengach. Y gweithgarwch marchnata nesaf fydd postio llyfrynau Tasty Wales.

23. Bydd Cynhadledd Sgiliau yn cael ei threfnu ar gyfer Gwanwyn 2017 gyda busnesau bychain yn bresennol /hyfforddi. Gellid cysylltu hwn o bosib â'r Prentisiaethau.

Eitem 7: Llif gwaith Cwsmeriaid a Marchnadoedd

- 26 Trafodwyd y bylchau prosesu. Mae gwaith ymchwil yn cael ei wneud ar hyn o bryd yn dilyn cais gan Ysgrifennydd y Cabinet gyda'r nod o ddatblygu strategaethau ar gyfer y posibilrwydd o dwf ac amrywiaeth. Cytunwyd y dylai strategaeth ar gyfer nodi'r prif chwaraewyr a nodi cyfleoedd gael eu cysylltu â'r adolygiad o'r Cynllun Gweithredu.

Eitem 8: Cyflwyniad Four Cymru

24. Cyflwynodd Four Cymru ar opsiynau ar gyfer Cyfathrebu a Chysylltu. Pwrpas yr opsiynau yw hysbysu'r bwrdd am y gwaith a'r amcanion ac i wrando ar y diwydiant. Cafodd yr Aelodau eu hannog i fod yn bresennol yn y digwyddiadau i hyrwyddo'r Bwrdd. Cytunwyd ar y dulliau canlynol:

- * Datganiadau rheolaidd i'r wasg, gan dynnu sylw at ddatblygiadau'r Bwrdd
- * Datganiadau i'r Wasg wedi unrhyw lwyddiant penodol/digwyddiadau neu gynadleddau.
- * Fideo bychan yn tynnu sylw at waith y Bwrdd

25. Gofynnodd CF a oedd modd anfon trydariadau rheolaidd o gyfrif trydar Bwyd Diod Cymru ar waith y Bwrdd.

Eitem 9: Y Diweddaraf am y Clystyrau

26. Rhoddodd ALW y newyddion diweddaraf i'r bwrdd ar waith y Clystyrau. Mae dros 380 o gwmnïau bellach yn rhan o ddatblygu pum grŵp Clwstwr gan ddatblygu mewn ffyrdd gwahanol ar wahanol gyflymder.
27. Mae'r grwpiau Clwstwr yn gyfle i drafod dwy ffordd rhwng y diwydiant bwyd a diod, Ysgrifennydd y Cabinet a'r Bwrdd.
28. Bydd adroddiad chwarterol anffurfiol yn cael ei baratoi i helpu i lywio unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud.
29. Cafodd aelodau'r Bwrdd eu hannog i fynychu cyfarfodydd y Clystyrau.

Eitem 10: Y Diweddaraf am yr Ymchwil

30. Rhoddodd Susie Abson, Dadansoddwr Data, Llywodraeth Cymru, y newyddion diweddaraf ar y gwaith sy'n cael ei gomisiynu gan yr Is-adran Bwyd / Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i edrych ar y gofynion o ran ymchwil i ddatblygu Cynllun



Ymchwil ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Cafodd y Bwrdd eu gwahodd i fwydo i'r Cynllun.

31. Gwaith ymchwil sy'n cael ei gomisiynu ar hyn o bryd:

- Ymchwiliad i sector Diodydd Cymru
- Wyau gan ganolbwyntio ar y cyfleoedd i ychwanegu gwerth yng Nghymru
- Gwaith ymchwil i ddefnyddwyr gan edrych ar werth "Cymreigrwydd" gyda'r nod o amddiffyn cwmnïau o Gymru yn y maes manwerthu.

Eitem 11: Grŵp Partneriaeth Amaethyddiaeth Cymru

32. Rhoddodd Kevin Roberts, Cadeirydd Grŵp Partneriaeth Amaethyddiaeth Cymru wybodaeth am y Grŵp, gan gynnwys y cefndir, y strategaethau a'r dull a ddefnyddiwyd. Trafodwyd canlyniadau'r refferendwm a phwysleisiwyd eto bod y strategaeth yn parhau, ond y bydd yr amserlenni yn newid. Mae papur sefyllfa'n cael ei ddatblygu i'w gysylltu â "Symud Cymru Ymlaen".

33. Cytunwyd bod gorgyffwrdd rhwng yr Agenda Bwyd a Diod a'r Grŵp, a bod angen sicrhau bod y gweithgareddau cyffredin yn cael eu cydlynnu.

Eitem 12: Arloesi, Buddsoddi a Thwf

34. Rhoddodd Linda Grant, BIC Innovation wybodaeth am y Gynhadledd Arloesi, Buddsoddi a Thwf ddiweddar. Mae gwerthusiadau wedi dechrau bellach gydag adborth cychwynnol cadarnhaol.

35. Mae cysylltu yn hanfodol er mwyn sicrhau allbynnau hirdymor.

36. Cytunwyd y byddai gweithdai Mentora i hyfforddi cwmnïau ar sut i drafod gyda buddsoddwyr yn ddull rhagorol os yw'r gynhadledd i gael ei chynnal eto yn y dyfodol.

37. Byddai trafod wedi hyn o fudd, o bosib i gysylltu gyda'r digwyddiad Blas Cymru / Taste Wales.

Eitem 13: Materion Cyfredol yn y Diwydiant – Recriwtio yn y sector gwasanaethau bwyd

38. Rhoddodd Peter Fuchs o Gymdeithas Blas ar Gymru a Chyfarwyddwr Creadigol Celtic Manor wybodaeth am y rhwystrau o fewn y sector gwasanaethau bwyd. Mae'r rhwystrau'n cynnwys cydbwysedd gwael rhwng bywyd a gwaith a staff yn newid yn aml.

39. Gallai'r rhwystrau hyn fod yn fygythiad sylweddol i'r sector. Mae'r gwaith o edrych ar yr hyn y mae sectorau eraill nad ydynt o fewn y sectorau lletygarwch yn ei wneud i annog pobl i ymuno â'r diwydiant.

Eitem 14: Syniadau ar gyfer Twf

43. Cyflwynodd KP y fenter Peas Please. Menter ledled Prydain yw Peas Please sy'n anelu at ddod â ffermwyr, manwerthwyr, cadwyni bwytai a bwyd cyflym, cwmnïau arlwygo, proseswyr ac adrannau'r llywodraeth gyda'r nod gyffredin o'i gwneud yn haws i bawb fwyta llysiau.
44. Mae gweithdai niferus wedi eu cynllunio gydag aelodau o'r Bwrdd yn cael eu hannog i fod yn bresennol. Cynhaliwyd trafodaeth am nawdd a thrafodwyd syniadau.

Eitem 15: Unrhyw Fusnes Arall

44. Trafodwyd yr angen am Lysgennad Gwin i Gymru. Cytunodd NB i wneud y swydd hon.
45. Trafodwyd a chytunwyd y dylai swyddogion gyd-gysylltu Cyfathrebu a Chysylltu. Felly mae aelodau y llif gwaith Cyfathrebu a Chysylltu i ymuno â llifau gwaith eraill ar wahân i NB sydd wedi derbyn swyddogaeth Llysgennad Gwin Cymru.
46. Cytunwyd bod angen strategaeth ar gyfer datblygu'r Diwydiant Diodydd. Felly mae cyfarfod i gael ei drefnu gyda'r diwydiant diodydd yn ehangach yn y Flwyddyn Newydd.

ATODIAD 1

YN BRESENNOL

Andy Richardson (AR)
Norma Barry (NB)
Catherine Fookes (CF)
Justine Fosh (JF)
Alison Lea-Wilson (ALW)
David Lloyd (DL)
Katie Palmer (KP)
Marcus Sherreard (MS)
James Wilson (JW)
Buster Grant (BG)

Swyddogion

Keith Smyton (KS)
David Morris (DM)
Suzanne Pomeroy (SP)
David Lloyd-Thomas (DLT)
Emma Herratt (EH)

YMDDIHEURIADAU

Justin Scale
Annitta Engel
Huw Thomas

ATODIAD 2

Sylwadau Ychwanegol i'r Cofnodion Blaenorol

Awgrymodd RA y byddai canlyniadau gweithdai Brexit ar gael wedi bwrdd crwn y 3ydd Hydref.

Mynegodd CF ei barn ar ddefnyddio Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd fel fframwaith ac i sicrhau y dylai cymorthdaliadau cyhoeddus fod er budd y cyhoedd: sef talu am welliannau amgylcheddol, atal llifogydd ac yn y blaen.

Awgrymodd CF, er mwyn mynd i'r afael â Thlodi Bwyd a Gordewdra sy'n golygu cost o dros £4bn y flwyddyn i'r GIG, mae angen inni ystyried BETH yr ydym yn ei gynhyrchu a SUT yr ydym yn ei gynhyrchu. Mae Brexit yn rhoi'r cyfle hwn inni a dylai Cymru fanteisio arno.

Holodd CF pryd y byddai polisi is-frand HCC yn cael ei ddatblygu. Mae angen mwy o wybodaeth am yr amseru a'r camau dilynol.